

# DOLEN Y TAB 77

15–16 Hydref 2021

Am 11 fore Sul 17 Hydref

Cwrdd Diolchgarwch gyda'r Ysgol Sul,  
Huw M. a Bethan Reynolds.

**Cofiwch gofrestru erbyn 6yh nos  
Wener os am fynychu'r cwrdd!**

YR OEDFAON NESAF

## HYDREF

- 24 Yng ngofal Glenys Roberts a'r Parchedig  
Gethin Rhys.
- 31 Yng ngofal Lyn a Mike West a'r teulu.

## TACHWEDD

- 7 Yng ngofal Ceri Anwen a Geraint Rees.
- 14 Yng ngofal y Parchedig Aled Edwards, gyda  
Huw a Bethan Herbert.

**Hefyd ddydd Sul 17 Hydref**

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa ddiolchgarwch dan arweiniad Llewelyn Moules-  
Jones, Bro Dwynwen, Môn.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a  
chrefyddol.

### 19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

A hithau'n dymor Diolchgarwch, adroddir am waith arbennig  
yr elusen Tir Dewi.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## CASGLIAD Y BANC BWYD

Bu'r casgliadau ariannol at y Banc Bwyd yn rhyfeddol  
o lwyddiannus, gyda'r cyfanswm dros £7,000. Gyda'r  
capel bellach wedi ailagor, byddwn yn dychwelyd at yr  
arfer o gasglu bwyd yn hytrach nag arian, a medrwch  
ddod â'ch cyfraniadau i'r capel fel o'r blaen. Gall  
unrhyw un nad yw'n dymuno gwneud hyn barhau i  
gyfrannu'n ariannol. Byddwn yn cefnogi Banc Bwyd  
Taf Elái a Banc Bwyd Salem Ton-Teg o hyn allan.

DIOLCH YN FAWR AM EICH CEFNOGAETH  
Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

# Briwsion o'r Bwrdd

Dyma grynodeb o rai o'r materion a drafodwyd yng  
nghyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr nos Fawrth:

**Oedfaon:** Cytunwyd i barhau am y tro i ddechrau'r  
oedfaon am 11 y bore, gofyn i'r aelodau archebu  
sedd(i) ymlaen llaw er mwyn gofalu bod pellter  
cymdeithasol diogel rhwng pob swigen, a dilyn y  
drefn a fabwysiadwyd ym mis Medi i rannu'r bara a'r  
gwin yn yr oedfa gymun nesaf.

**Darpariaeth Dechnolegol:** Penderfynwyd cynnal  
arolwg i weld pa offer a gwasanaethau technolegol y  
credwn fydd eu hangen arnom i gwrdd â'n gofynion  
dros y blynyddoedd nesaf, ac ar yr un pryd ystyried  
pa offer nad oes galw amdanynt mwyach. Byddwn  
yn gwahodd rhai aelodau i ymuno â gweithgor bach  
i drafod hyn yn fanylach ac i gwrdd â chwmni offer  
technolegol proffesiynol cyn gyflwyno argymhellion  
i'r Bwrdd.

**Cynllun Arloesi a Buddsoddi:** Croesawyd  
adroddiad Eleri Mai ar yr hyn y llwyddodd i'w  
gyflawni yn ystod ei mis cyntaf yn ei swydd, ac yn  
arbennig ei llwyddiant i ddenu cynifer o bobl ifanc i  
ymuno â Chlwb y Twmiaid.

**Cwrdd Blynyddol:** Cytunwyd i gynnal y Cyfarfod  
Cyffredinol Blynyddol yn dilyn yr oedfa fore Sul 28  
Tachwedd. Bydd papurau i enwebu aelodau newydd  
i'r Bwrdd yn cael eu hanfon at bawb cyn diwedd mis  
Hydref.



**Diolchgarwch**

**Diolchgarwch**

**Bore Sul bydd hi'n Gwrdd Diolchgarwch**

**Mae ein banc bwyd lleol yn rhedeg ar stoc isel.**

**Beth am ddod â bag o fwydydd, yn ôl eich gallu,  
fore Sul? Byddai cyfraniad sylweddol wrthon  
ni fel capel yn gymorth mawr.**

**Tuniau, pasta a reis  
DIOLCH YN FAWR IAWN!**



## CASGLIAD YR AMLENNI BROWN

Cwta dri mis sydd ar ôl i gyfrannu i'r casgliad yma, at bedair elusen yn yr ardal sy'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth ac yn fawr eu diolch.

**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf**  
**Cwtch**  
**Ysgol Tŷ Coch**

Os nad ydych wedi cael cyfle i gyfrannu'n barod, byddai'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddiolchgar iawn pe gallech wneud hynny erbyn canol Rhagfyr, er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r arian yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**DIOLCH YN FAWR**

## COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

### **Defnyddio'r dechnoleg fodern yn ein haddoliad**

7 o'r gloch,  
Nos Fawrth 19 Hydref

**RHODRI DARCY**  
Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu  
Undeb yr Annibynwyr

Manylion pellach a dolen Zoom:  
[aled@colegyrannibynwyr.cymru](mailto:aled@colegyrannibynwyr.cymru)

**CROESO CYNNES I BAWB**

**Coffi a Sgws**

**Canolfan y Tabernacl**

**Bob bore Mawrth**  
**10.30-12.00**

Efail Isaf

**Croeso i bawb**



## PIGION O'R WASG

## Beth fydd dyfodol Capeli Cymru?

Rhai o enwadau crefyddol Cymru sydd dan lach Dafydd Iwan yn rhifyn mis Hydref o'r **Cymro**. Mae'n eu beirniadu am ddefnyddio 'dadl ffug' i feio'r Comisiwn Elusennau am eu penderfyniad i werthu hen gapel Tom Nefyn ym mhentref Pistyll ar y farchnad agored er mwyn bodloni'r gofynion statudol. Gwrthdadl Dafydd, fodd bynnag, yw mynnu nad oes gan y Comisiwn hawl i orfodi elusen i werthu eiddo am y pris uchaf. Yn hytrach, cyfrifoldeb y Comisiwn yw gofalu nad yw elusen yn camdefnyddio'i adnoddau, a sicrhau nad oes unrhyw un yn elwa'n annheg ar draul yr elusen.

Wrth gwrs, dim ond un o ddwsinau lawer o gapeli sydd wedi eu gwerthu ers dechrau'r ganrif hon am bris y farchnad yw Capel Bethania, Pistyll, ac yn hynny o beth nid oedd yn eithriad i'r drefn arferol a ddilynir gan rai enwadau. Ond gan mai prif ddyletswydd unrhyw elusen yw gofalu ei bod yn gweithredu yn unol â'i phrif amcanion, aiff Dafydd yn ei flaen i gwestiynu, 'Os na all corff Cristnogol (neu unrhyw gorff crefyddol o ran hynny) ddadlau mai edrych ar ôl buddiannau pobol, gorff ac enaid, yw prif bwrpas ei fodolaeth, pwy ar wyneb y ddaear all wneud hynny?' Tra'n derbyn bod raid i enwad Cristnogol ymddwyn yn gyfrifol gyda'i eiddo, mae'n ofynnol bod ei benderfyniadau'n ddarostyngedig i'w brif nod, sef gwasanaethu anghenion ysbrydol a chorfforol y gymuned mae'n ei chynrychioli.

Serch hynny, mae Dafydd yn cydnabod bod llawer o'r hen adeiladau'n medru bod yn faen tramgwydd sy'n rhwystro eglwys rhag esblygu'n ganolfan Cristnogol ymarferol o fewn ei chymuned. Nid yw'n gweld dim o'i le, felly, mewn gwerthu eiddo o'r fath lle nad oes ateb hwylus ar gael, ond dylid dilyn y llwybr hwnnw ar yr amod y defnyddir yr elw a ddaw o'r gwerthiant i godi adeilad newydd pwrpasol yn ei le gan roi'r pwyslais 'ar fwydo'r enaid a'r corff', a gofalu bod lle blaenllaw ynddo i wasanaethu'r tlawd, yr unig a'r diymgeledd o fewn cymdeithas. Mae hyn yn arwain at ei baragraff clo sy'n llawer mwy cadarnhaol a gobeithiol na gweddill yr erthygl:

**'A'r newydd da yw fod llawer o hyn yn digwydd eisoes. O'r Efail Isaf i Waengoleugoed, o Ben-y-groes i Bwll-trap, o Gaernarfon i Gaerfyrddin, mae ysbryd newydd ar gerdded.'**